**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol yr Economi ac Isadeiledd

**Cyfarfod aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / *MS Teams***

**Dydd Iau, 23 Mehefin 2022 am 2.00pm**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C R Doyle | W G Lewis | P Lloyd |
| P M Matthews | S J Rice | W G Thomas |
| T M White | | |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Scott Dummett | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Phil Holmes | Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn Bresennol:**
Y Cynghorydd R Francis-Davies – Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): N L MatthewsA S Lewis a M Wade.

---

## 4 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 5 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2022 a 24 Mai 2022 fel cofnod cywir.

## 6 Cylch Gorchwyl (Er Gwybodaeth)

Nodwyd.

## 7 Trawsnewid ein Heconomi a'n Hisadeiledd - Adroddiad Statws

Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd diweddar o ran Amcanion Lles Corfforaethol 'Trawsnewid ein Heconomi a'n Hisadeiledd'.

Nododd yr Aelodau'r cefndir, cyflawni adferiad economaidd tymor hwy a chyflwyno rhaglenni a phrosiectau sy'n ymwneud â'r economi ac isadeiledd.

Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas,

1) Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Economaidd Rhanbarthol yn ddiweddar gan y cyngor a'r cyd-bwyllgor, felly does dim cynlluniau di-oed i gynnal adolygiad. Mae'r cynllun yn ddogfen 'fyw' a all fod yn ymatebol a hyblyg.
2) Mae'r cynllun yn adlewyrchu prosiectau sy'n ymwneud â buddsoddwyr mawr.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi'r adroddiad.
2) Datblygu blaengynllun ar gyfer gweithgarwch ar gyfer 2022-2023 i gyd-fynd â chyflawni’r Amcan Lles Corfforaethol.

## 8 Trafodaeth ar y Cynllun Gwaith

Trafododd yr Aelodau eitemau posib i'w cynnwys yng nghynllun gwaith 2022-23;

1) Safleoedd Hydro.
2) Strategaeth y Bae.
3) Cynllun Adfer Economaidd Rhanbarthol ac a oedd cynllun yn benodol i Abertawe.
4) Fferm Drydan/Rhwydweithiau Gwefru.
5) Cerbydlu Gwyrdd/Cerbydlu Llwyd.
6) Rhagor o Gartrefi a Datgarboneiddio.
7) Eiddo Gwag.
8) Defnydd o oleuadau LED ar gyfer goleuadau stryd.
9) Y Fargen Ddinesig
10) Lleoedd gwaith a rennir.
11) Economi dim gwastraff.

Dywedodd y Cadeirydd y gall rhai eitemau fod yn gyfrifoldeb ar Bwyllgorau Datblygu Corfforaethol eraill a'i bod yn bwysig osgoi dyblygu.

**Penderfynwyd** y bydd y Cadeirydd yn trafod yr eitemau posib ymhellach gyda'r Swyddogion a'r Aelodau Cabinet perthnasol.

**9 Dyddiad ac Amser y Cyfarfodydd**

Nodwyd dyddiadau ac amserau cyfarfodydd y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.33pm

**Cadeirydd**